Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 666A2011

# Statws yr adroddiad

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith hwn yn cynnwys John Dwight, Andrew Doughton, Anthony Veale a Dave Thomas ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio'r cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnyddio adnoddau | 11 |
| Gwneir cynnydd wrth fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010, er bod rhai heriau arbennig yn parhau | 11 |
| Mae sylfeini cadarn yn eu lle i wneud y defnydd gorau o adnoddau theatr ond mae angen gweithredu'n gyflym gan gynnwys datblygu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn gwireddu ei botensial llawn | 14 |
| Nid oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes digon cadarn, ond mae'n ymwybodol o'r risgiau hyn ac mae'n cymryd camau gwella ar hyn o bryd | 14 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol, er bod angen cynnydd pellach i fynd i'r afael â heriau cynyddol mewn rhai meysydd | 15 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 17 |
| Ffi archwilio | 19 |

# Adroddiad cryno

1. Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o’r gwaith archwilio rwyf wedi’i gyflawni ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (Y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2011.
2. Mae’r gwaith rwyf wedi’i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy’n wynebu’r Bwrdd Iechyd, ac sy’n berthnasol i’m cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod a’u cytuno gyda swyddogion a’u cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio. Dangosir yr adroddiadau yr wyf wedi’u cyflwyno yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o’m gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio’r cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, ac rwyf wedi nodi rhai materion i’w hystyried yn ystod 2011-12.
6. Rwyf hefyd wedi dod i’r casgliadau canlynol:
   - paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd effeithiol o reolaeth fewnol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ac mae gwelliannau mwy cyffredinol i’r Fframwaith Sicrwydd yn mynd rhagddynt; ac
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a’u gweithredu’n briodol, yn ôl y bwriad.
7. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2012-11, ond mae risg na chaiff hyn ei gyflawni yn 2011-12.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnyddio adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau’r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella ymhellach a nodwyd fel rhan o waith Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau.

9. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- Gwneir cynnydd wrth fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010, er bod rhai heriau arbennig yn parhau, yn benodol:
  - Mae'r ymagwedd at gyflawni'r weledigaeth a rheoli newid yn datblygu ac yn arwain at welliant, ond erys materion yn ymwneud ag eglurder deilliannau a gallu a chapasiti sefydliadol y mae angen eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r newid yn ôl y cyflymder gofynnol.
  - Bu gwelliannau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn deall ac yn cefnogi cynlluniau strategol y sefydliad.
  - Yn ddigon dealladwy, mae rheolaeth ariannol wedi canolbwyntio ar y sefyllfa flynyddol ac mae manteision hyn yn dechrau dwyn ffrwyth, er bod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg o £3 miliwn ar gyfer 2011-12. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o hyd i egluro cyllid tymor hwy.
  - Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gadarn at ei gilydd ac mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod y trefniadau'n ysgogi ac yn cefnogi gwelliant.
- Mae sylfeini cadarn yn eu lle er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau theatr ond mae angen gweithredu'n gyflym gan gynnwys datblygu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn gwireddu ei botensial llawn.
- Nid oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes digon cadarn, ond mae'n ymwybodol o'r risgiau hyn ac mae'n cymryd camau gwella ar hyn o bryd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol, er bod angen cynnydd pellach i fynd i'r afael â heriau cynyddol mewn rhai meysydd.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

10. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Ionawr 2012. Yna, caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd ar 29 Chwefror 2012 a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogaf y Bwrdd Iechyd yn gadarn i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

11. Hoffwn ddiolch yn fawr i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**12.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Tachwedd 2011.

**13.** Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

**a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

**b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a

**c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**14.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, fel ymarferion cydweddu data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**15.** Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn; rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**16.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio'r cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

**17.** Yn olaf, mae Atodiad 2 yn rhoi'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol cyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

## Adran 1: Archwilio'r cyfrifon

**18.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad

ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**19.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w archwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**20.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**21.** Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**22.** Cefais ddatganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd ar 4 Mai 2011, yn unol â'r amserlen gytûn. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd i ategu'r datganiadau drafft yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall, ac roedd ansawdd y datganiadau ariannol drafft wedi gwella'n sylweddol o'r hyn a welwyd y llynedd.

**23.** Yn unol ag ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 2 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Darpariaeth a datgeliadau rhwymedigaethau amodol ar gyfer hawliadau ôl-weithredol ynghylch gofal iechyd parhaus | Daeth fy ngwaith i brofi papurau gwaith i gefnogi'r balansau hyn o hyd i wallau o ran cyfrifo lefel y ddarpariaeth oedd yn ofynnol. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd sy'n rhan annatod o bennu asesiad cywir, roeddwn yn fodlon na chafodd y balansau yn y cyfrifon eu cam-ddatgan mewn unrhyw ffordd berthnasol a, chan fod y setliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn is na'r amcangyfrifon, roedd y risg ariannol i'r Bwrdd yn gymharol isel. |
| Cytundebau â darparwyr gofal iechyd a darparwyr eraill | Nid oedd nifer o'r cytundebau hyn wedi cael eu llofnodi'n ffurfiol. Cydnabyddaf fod telerau'r cytundebau'n cael eu cyflawni, ond mae risg y byddai unrhyw anghydfodau ffurfiol yn anodd eu datrys heb gytundeb ffurfiol, wedi'i lofnodi. |

**24.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, ymgymerais â'r adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2011, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn.
- Archwiliad annibynnol o gyfrifon Cronfa Elusennol y Bwrdd Iechyd – deuthum i'r casgliad nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd amdanynt fel rhan o ddatganiad yr archwiliwr annibynnol.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd effeithiol o reolaeth fewnol i leihau risgiau o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ac mae gwelliannau mwy cyffredinol i'r Fframwaith Sicrwydd yn mynd rhagddynt

**25.** Fe wnaeth trefniadau rheolaeth fewnol yn ystod 2010-11 leihau'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol ac eir i'r afael â'r materion a nodwyd o'r adolygiadau o'r trefniadau hyn.

26. Mae'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol, y cafwyd adroddiad arno yn natganiadau ariannol 2010-11, yn amlinellu'r fframwaith rheolaeth fewnol. Fe wnaeth adolygiad y Bwrdd Iechyd o effeithiolrwydd y trefniadau hyn gynnwys adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chymeradwyaeth ffurfiol i'r Datganiad gan y Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, paratôdd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio adroddiad blynyddol.

27. Er bod y dogfennau ffurfiol hyn yn amlygu meysydd i'w datblygu a'u gwella, at ei gilydd maent yn cadarnhau bod trefniadau boddhaol yn bodoli i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol. Mae fy ngwaith fy hun o ran adolygu'r amgylchedd rheolaeth cyffredinol yn cadarnhau hyn hefyd.

28. Eir i'r afael â'r materion mwy arwyddocaol o'r adolygiadau hyn a chânt eu crynhoi yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Materion arwyddocaol sy'n deillio o adolygiadau o'r amgylchedd rheolaeth fewnol**

| Mater a ffynhonnell | Cam gweithredu sy'n cael ei ddilyn |
|---|---|
| Rheolaeth dros ddefnyddio dyfeisiadau meddygol<br>(Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol) | Mae cynllun gweithredu manwl ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. |
| Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd – mae angen cynllun gwella i ymateb i hunanasesu'r modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd<br>(Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol) | Mae Cynllun Gwella ar waith erbyn hyn. |
| Darpariaeth archwilio mewnol – newid darparwyr y gwasanaeth<br>(Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol) | Mae trefniadau diwygiedig ar waith drwy Bartneriaethau Gwasanaethau ar y Cyd GIG Cymru. Cymeradwywyd cynllun archwilio mewnol 2011-12 gan y Pwyllgor Archwilio. |

29. Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio hefyd yn cyfeirio at reoli risg a datblygu fframwaith sicrwydd yr wyf wedi'u hystyried fel rhan o waith dilynol fy Asesiad Strwythuredig, y mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad

**30.** Caiff systemau ariannol a chyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol a'u bod yn gweithredu yn ôl y bwriad. Rhoddwyd adroddiadau adolygiadau archwilio allanol ac archwilio mewnol i'r Pwyllgor Archwilio.

**31.** Ni nodwyd unrhyw wendidau pwysig yn systemau a rheolau ariannol y Bwrdd Iechyd, er y gwnaed argymhellion ynghylch gwella. Caiff y rhain eu dilyn i fyny fel rhan o'm gwaith archwilio yn 2012.

**32.** Yn ystod 2011, rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Bwrdd Iechyd am brosesu hawliadau ôl-weithredol am iawndal ar gyfer gofal iechyd parhaus, ar ran pob bwrdd iechyd arall yng Nghymru. Bwriedir i'r trefniadau newydd hyn reoli'r ôl-groniad o hawliadau ac yn cyflymu'r gwaith prosesu a datrys yr hawliadau sy'n weddill. Bydd angen adolygu'r rheolaeth dros y trefniadau newydd hyn yn ystod 2011-12.

## Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2010-11, ond mae risg na chaiff hyn ei gyflawni yn 2011-12

**33.** Yn fy Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010, adroddais fod angen i'r Bwrdd Iechyd, wrth osod cyllideb flynyddol o £243.0 miliwn ar gyfer 2010-11, ddatrys rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cymorth strategol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i raglenni gwella costau a'i gynlluniau arbedion ariannol.

**34.** Y sefyllfa derfynol ar ddiwedd 2010-11 oedd bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni balans ariannol (gan adrodd gwarged bychan), ond gyda chyfanswm o £19.8 miliwn o gymorth strategol gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, llwyddodd y Bwrdd i gyflawni gwelliannau costau ac arbedion o £10.3 miliwn, sef 83 y cant o'i dargedau.

**35.** Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol blynyddol ar gyfer 2011-12 yn Ebrill 2011, ar sail Terfyn Adnodd Refeniw o ychydig dros £236 miliwn a phwysau cost a nodwyd o £31 miliwn. Byddid yn mynd i'r afael â'r pwysau hyn drwy:

- cynlluniau arbedion wedi'u nodi o £13.3 miliwn;
- cymorth ariannol strategol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £15 miliwn; ac
- arbedion costau a fyddai'n cael eu nodi yn ystod y flwyddyn o £3 miliwn.

**36.** Mae'r sefyllfa ym mis saith (a adroddwyd yng nghyfarfod y Bwrdd yn Rhagfyr 2011) yn nodi gorwariant y pryd hwnnw o £3 miliwn ac mae'n rhagweld gorwariant o £3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid yn cadarnhau'r canlynol:

- bydd yr arbedion rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn yn £12.7 miliwn yn ôl targed o £13.3 miliwn;
- mae'r cymorth ariannol strategol o £15 miliwn wedi'i gytuno; ac
- er bod cynlluniau i reoli'r arbedion ychwanegol sy'n ofynnol, mae twf mewn gwariant mewn rhai meysydd wedi bod uwchlaw'r lefelau arfaethedig.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnyddio adnoddau

**37.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennyf yng ngwaith yr Asesiad Strwythuredig y llynedd, sy'n cynnwys y cynnydd a wneir wrth gyflwyno cynlluniau arbedion;
- archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran defnyddio theatrau llawfeddygaeth a chyfraddau llawfeddygaeth ddydd;
- adolygu trefniadau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes y Bwrdd Iechyd; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ynghylch Gwasanaethau Mamolaeth, a Gofal Heb ei Drefnu a modelau newydd o ofal iechyd a chymdeithasol.

**38.** Isod, rwyf wedi crynhoi'r prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn.

## Gwneir cynnydd wrth fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig 2010, er bod rhai heriau penodol yn parhau

**39.** Mae gwaith archwilio'r Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2011 wedi dilyn i fyny'r meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn Adroddiad Archwiliad Blynyddol 2010, sef y meysydd canlynol:

- ymagweddau at gyflawni gwelliant i wasanaethau a'u moderneiddio;
- trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol; a
- sefyllfa ariannol bresennol y Bwrdd Iechyd a'i drefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol.

**40.** Yn ogystal, rwyf hefyd wedi ystyried trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

**41.** Rwyf wedi cyhoeddi adroddiad manwl o ganlyniad i'r gwaith dilynol hwn i'r Asesiad Strwythuredig, ond mae'r prif gasgliadau wedi'u crynhoi yn Arddangosyn 3.

## Arddangosyn 3: Casgliadau o ddilyn i fyny'r Asesiad Strwythuredig

| Meysydd i'w gwella | Casgliadau o ddilyn i fyny'r Asesiad Strwythuredig |
|---|---|
| **Ymagwedd at gyflawni gwelliant i wasanaethau a'u moderneiddio** | **Mae ymagwedd y Bwrdd Iechyd at ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer moderneiddio gwasanaethau yn datblygu ac yn arwain at rai gwelliannau. Fodd bynnag, mae angen o hyd i nodi deilliannau cliriach ar gyfer gallu mesur llwyddiant ac i fynd i'r afael â bylchau mewn gallu a chapasiti sefydliadol, yn arbennig ar lefel bro.**<br>• Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi dod yn gyfrwng ar gyfer cyflwyno gweledigaeth strategol y Bwrdd Iechyd, ond mae angen cael ffocws cliriach ar ddeilliannau yn enwedig wrth ailgynllunio gwasanaethau a llwybrau gofal. Mae cyfres resymegol a chydlynol o ddogfennau strategol sy'n rhoi fframwaith a chyfeiriad i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r dogfennau allweddol hyn (y Rhaglen Amlinelliad Strategol, Cyfeiriadau Newydd, Fframwaith y Gweithlu Gwasanaeth ac Ariannol a'r Cynllun Corfforaethol) wedi cael eu mireinio ymhellach.<br>• Bu cynnydd cymysg wrth ddatblygu strwythurau sefydliadol cydlynol i ategu cyflawni amcanion corfforaethol. Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o strwythurau sefydliadol sy'n datblygu, gan gynnwys bröydd, bröydd clinigol a chlystyru meddygon teulu. Hefyd, bydd yn parhau i fod ag angen integreiddio gwasanaethau gyda Chyngor Sir Powys, y mae ei wasanaethau Gofal Cymdeithasol wedi'u trefnu yn ôl model tair sir. Mae risg, fodd bynnag, y gallai'r strwythurau diwygiedig gynyddu cymhlethdod gan wneud ymgysylltu, gweithio mewn partneriaeth a chynllunio yn anodd.<br>• Mae penodi'r Cadeirydd newydd a phenodiad parhaol y Prif Weithredwr wedi cynnig mwy o sefydlogrwydd ar lefel gorfforaethol a gweithredol ond mae problemau gallu a chapasiti i ategu cyflawni'r weledigaeth yn parhau. Mae hyn yn arbennig yn broblem i'r bröydd, sef y strwythurau allweddol sy'n gyfrifol am gyflawni llawer o'r newidiadau gofynnol.<br>• Mae adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd wedi gwella ond mae angen mwy o waith i sefydlu fframwaith cyffredinol gwell ar fesur perfformiad sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau a ddiffiniwyd yn glir. |

| Meysydd i'w gwella | Casgliadau o ddilyn i fyny'r Asesiad Strwythuredig |
|---|---|
| **Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol** | **Bu gwelliannau wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn deall ac yn cefnogi cynlluniau strategol y sefydliad**<br>• Mae dulliau ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol yn gwella ac, o ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau cael perchenogaeth ar y cyd ar fentrau moderneiddio. Fodd bynnag, wrth fynd ymlaen, mae angen i ymgysylltu gael ei gysylltu'n gliriach â modelau pendant o ddylunio gofal iechyd.<br>• Nid yw ymgysylltu mewnol yn ddigonol eto i sicrhau bod staff yn cefnogi'r weledigaeth yn llawn. |
| **Rheolaeth ariannol** | **Yn ddigon dealladwy, mae rheolaeth ariannol wedi canolbwyntio ar y sefyllfa flynyddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau gweld manteision hyn, er ei fod ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg o £3 miliwn ar gyfer 2011-12. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o hyd i egluro'r cyllid tymor hwy**<br>• Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £3 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.<br>• Mae rheolaeth ariannol ar lefel bro yn datblygu ond mae angen i sicrwydd ar lefel y Bwrdd gael ei egluro, fel rhan o'r ymagweddau sy'n datblygu o fframwaith sicrwydd y Bwrdd.<br>• Erys diffyg eglurder yn y strategaeth ariannol tymor hwy a'r sicrwydd y bydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth. Mae'r Fframwaith Gweithlu Gwasanaeth ac Ariannol yn cynnig trosolwg lefel uchel, ond mae angen modelu ariannol manylach sy'n cysylltu â modelau gwasanaeth datblygol ac â deilliannau i ategu hyn. |
| **Trefniadau llywodraethu** | **Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gadarn yn gyffredinol ac mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod y trefniadau yn ysgogi ac yn cefnogi gwelliant**<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r angen i ddatblygu fframwaith sicrwydd cyffredinol a threfniadau llywodraethu integredig. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn hyn o beth.<br>• Mae trefniadau rheoli risg sy'n datblygu, ond mae angen ymgorffori rheolaeth risg ymhellach yn y fframwaith sicrwydd.<br>• Mae angen sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cynnwys yn effeithiol bob sicrwydd y mae ei angen ar gyfer cleifion sy'n cael eu trin yn y sir a'r tu allan i'r sir. |

## Mae sylfeini cadarn yn eu lle i wneud y defnydd gorau o adnoddau theatr ond mae angen gweithredu'n gyflym gan gynnwys datblygu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn gwireddu ei botensial llawn

**42.** Fel rhan o'm gwaith i bennu'r posibilrwydd i'r Bwrdd Iechyd allu cyflawni mwy o effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi archwilio'r defnydd ar theatrau llawfeddygaeth a chyfraddau llawfeddygaeth ddydd. Defnyddiodd y gwaith hwn gymariaethau perfformiad gyda sampl o ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr, a dangosodd fod:

- Defnyddio sesiynau wedi'u hariannu yn cymharu'n dda â sefydliadau eraill, fodd bynnag, dim ond chwarter o'r holl gapasiti theatr sydd ar gael y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddefnyddio.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith ar gyfer cefnogi ac ymgysylltu â'i weithlu theatr er bod angen rhoi mwy o ffocws i staff yn Llandrindod. Mae gan staff fedrau priodol i gyflwyno gweithgarwch presennol ac mae ffocws cryf ar ddiogelwch.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau sydd wedi'u hanelu at wella'r defnydd ar adnoddau a chreu arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd iechyd yn cydnabod y potensial i greu effeithlonrwydd ariannol trwy gynyddu gwasanaethau llawfeddygol lleol, fodd bynnag, bu'r cynnydd yn araf ac o ganlyniad, ni chyflawnwyd ei gynllun gwella costau ar gyfer 2010-11.
- Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd system wybodaeth theatr i recordio ac adrodd ar weithgarwch a pherfformiad theatr yn gadarn ac nid yw lefel y wybodaeth sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd yn ddigon i reoli perfformiad theatrau yn effeithiol.

## Nid oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes digon cadarn, ond mae'n ymwybodol o'r risgiau hyn ac mae'n cymryd camau gwella ar hyn o bryd

**43.** Fel rhan o'm rhaglen waith, adolygais y trefniadau sydd gan y Bwrdd Iechyd ar waith i ddiogelu a sicrhau parhad ei wasanaethau o ganlyniad i fethiannau systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ac i adfer gwasanaethau systemau yn dilyn cyfnod posibl o fethu. Dangosodd y gwaith hwn fod:

- trefniadau llywodraethu adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes yn gwella, ond nad yw'r trefniadau goruchwylio cystal ar gyfer systemau a gwasanaethau sydd wedi'u cyflwyno dan gontract i fyrddau iechyd eraill;
- nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes digonol ond mae'n dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn;
- mae rhai gwendidau yn rheolaeth a gwydnwch y seilwaith TGCh ond dylai'r symud i'r ganolfan ddata genedlaethol ym Mlaenafon gryfhau trefniadau; a

- nid yw'r Bwrdd Iechyd yn profi trefniadau adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad, sy'n peri bod nodi a blaenoriaethu camau gwella yn anodd.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol, er bod angen cynnydd pellach i fynd i'r afael â heriau cynyddol mewn rhai meysydd

**44.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi ymgymryd â gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol o gyflwyno gwasanaethau. Mae canfyddiadau o'r gwaith dilynol wedi'u crynhoi yn Arddangosyn 4.

### Arddangosyn 4: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
| --- | --- |
| Gwasanaethau Mamolaeth | Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth wella'i wasanaeth mamolaeth ymhellach, er y bydd gan y ddarpariaeth gofal mamolaeth yng nghyrff cyfagos y GIG oblygiadau i wasanaethau mamolaeth ym Mhowys:<br>• ystyrir bod gwasanaethau mamolaeth yn flaenoriaeth uchel gydag ymgysylltiad da uwch swyddogion ac mae fy ngwaith blaenorol wrthi'n cael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliannau;<br>• cymerwyd camau cadarnhaol i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth sy'n tanategu cynllunio a rheolaeth perfformiad gwasanaeth mamolaeth y Bwrdd Iechyd;<br>• mae ymarfer mapio cynhwysfawr wedi rhoi sylfaen dda ar gyfer cynllunio ymlaen, fodd bynnag, bydd gan newidiadau i ffurf gwasanaethau mewn cyrff iechyd cyfagos oblygiadau i wasanaethau mamolaeth ym Mhowys a fydd yn effeithio ar gynllunio gwasanaethau a llwybrau cleifion;<br>• mae nifer o ddulliau cadarnhaol ar waith i gefnogi gofal mamolaeth diogel ac effeithiol ym Mhowys; a<br>• gwnaed gwelliannau ym mhob agwedd ar ofal mamolaeth er bod cyfraddau ymyrryd mewn rhai unedau obstetreg darparwyr yn bryder o hyd. |

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
|---|---|
| Gofal Heb ei Drefnu (Gwaith Dilynol Rhagarweiniol) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran gwella gwasanaethu gofal heb ei drefnu ac wrth weithredu argymhellion blaenorol, ond mae angen iddo wneud y mwyaf o fanteision gweithio ar y cyd a blaenoriaethu gwelliannau mewn gofal heb ei drefnu:<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod lle y mae angen datblygu Gwasanaethau Gofal Heb ei Drefnu ac mae'n ystyried argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, gan eu defnyddio i lywio cynllunio a datblygu gwasanaethau.<br>• Er bod tystiolaeth o fentrau i wella gwasanaethau gofal heb ei drefnu, mae llawer o waith i'w wneud i wneud y mwyaf o ddeilliannau gweithio mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau wedi'u datblygu'n ddiweddar ym Mhowys i hyrwyddo dull mwy integredig o gyflwyno gwasanaethau.<br>• Mae tystiolaeth o gynnydd mewn mentrau i wella pwyntiau mynediad at wasanaethau heb eu trefnu, er bod cynnydd pellach yn ofynnol fel rhan o weledigaeth y Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.<br>• Mae cynllunio llwybrau cleifion ar gyfer cyflyrau cyffredin sydd angen gofal heb ei drefnu ar y gweill ac mae angen i'r gwaith i ddatblygu, gweithredu a monitro effaith llwybrau barhau i fod yn flaenoriaeth.<br>• Er nad yw systemau gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio ar draws partneriaid wedi'u hintegreiddio ar hyn o bryd, penodwyd cyd-arweinydd Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys.<br>Mae'r graddau y mae gwelliannau'n cael eu cyflawni wedi bod yn destun gwaith adolygu manylach a gwblhawyd yn ddiweddar a chyflwynir adroddiad ar hyn i'r Bwrdd Iechyd yn gynnar yn 2012. |
| Diweddariad ar gynnydd modelau newydd o Ofal Iechyd a Chymdeithasol | Mae heriau'n parhau wrth fynd â'r model newydd o ofal iechyd a chymdeithasol yn ei flaen. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yng ngwaith dilynol fy Asesiad Strwythuredig sydd wedi canolbwyntio ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol integredig. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Canolfan Gwasanaethau Busnes – Gwasanaethau Contractwr | Mehefin 2011 |
| Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Adroddiad Manwl | Mehefin 2011 |
| Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol ar Gronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Theatrau Llawfeddygaeth a Llawfeddygaeth Ddydd | Mehefin 2011 |
| Gwaith Dilynol – Llythyr ar y Modelau Newydd o Ofal Iechyd a Chymdeithasol | Gorffennaf 2011 |
| Gwaith Dilynol Cychwynnol ar Ofal Heb ei Drefnu | Awst 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Wasanaethau Mamolaeth | Hydref 2011 |
| Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes | Tachwedd 2011 |
| Asesiad Strwythuredig – Gwaith Dilynol ar Drefniadau Corfforaethol | Rhagfyr 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mehefin 2011 |

Hefyd, mae nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gydag amcangyfrif o ddyddiadau cwblhau'r gwaith. Rwyf yn amcangyfrif y bydd yr holl waith archwilio perfformiad a ddangoswyd yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

| Adroddiad | Amcangyfrif o’r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Ansawdd Data | Chwefror 2012 |
| Rheoli Cyflyrau Cronig | Chwefror 2012 |
| Gofal Heb ei Drefnu – Gwaith Dilynol Manwl | Chwefror 2012 |
| Ymgysylltu Clinigol | Chwefror 2012 |
| Adolygiad Dilynol o Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg | Chwefror 2012 |
| Diweddariad cynnydd ynghylch Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion | Mawrth 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 y ffi archwilio arfaethedig o £259,256 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr Amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes oedd £4,926 (heb gynnwys TAW).

Yn ystod y flwyddyn, adolygais y gwaith archwilio perfformiad yn Strategaeth Archwilio 2010 a oedd yn weddill o hyd. Arweiniodd hyn at ad-daliad o £11,844 (heb gynnwys TAW) o ffi archwilio 2010, fel yr amlinellwyd mewn llythyr i'r Cyfarwyddwr Cyllid ym Mehefin 2011. Dangosir y prosiectau archwilio perfformiad yr effeithiwyd arnynt isod.

| Pwnc | Statws |
|---|---|
| Gofal Iechyd Parhaus | Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau cenedlaethol o werth am arian ar gyfer 2011-12. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd. |
| Gwaith dilynol ar ganfyddiadau archwilio blaenorol – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau cenedlaethol o werth am arian ar gyfer 2011-12. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd. |
| Adfer ar ôl Trychineb TGCh/ Parhad Busnes | Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau cenedlaethol o werth am arian ar gyfer 2011. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk